CYNGOR TREF Y
RHYL
TOWN COUNCIL

**Our Ref / Ein Cyf:** HJM/RAW
**Date / Dyddiad:** 11/05/2026

**Town Mayor / Maer y Dref: Councillor / Cynghorydd Alexander Walker**
**Town Clerk / Clerc y Dref: Mrs Helen J. Mead**

**CYNGOR TREF Y RHYL wedi camu i'r adwy i roi cyfle i blant dan anfantais fwynhau gwyliau haf bythgofiadwy**

Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â mudiad ieuenctid mwyaf Cymru, Urdd Gobaith Cymru, yn cynorthwyo i gyllido gwyliau haf am ddim i blant a phobl ifanc rhwng 8 ac 18 oed yng ngwersylloedd haf yr Urdd eleni.

Dywedodd Clerc y Dref, Helen Mead: "Mae'r Cyngor wedi rhoi cyllid i bum person ifanc o'r Rhyl fwynhau gwyliau. Mae gwersylloedd yr Urdd yn gyfle gwych i bobl ifanc na fyddai'n medru mynd ar wyliau fel arall a gallant fod yn brofiad sy'n newid eu bywyd. Rydym ni wedi ymrwymo i helpu'r rhai mewn mwyaf o angen yn ein tref, ac roedd cefnogi'r prosiect hwn yn un dull o gyflawni hynny. Hoffem annog pobl i wirio'r meini prawf pwy sy'n gymwys a chyflwyno cais yn amserol."

Dywedodd Sian Lewis, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru, eu bod yn ddiolchgar i'r Cyngor am y cyfraniad hael.

"Drwy noddi'r gronfa Cyfle i Bawb maen nhw wedi gwneud gwahaniaeth go iawn, gan alluogi plant a phobl ifanc o gefndiroedd o dan anfantais i fwynhau'r hwyl, y cyfeillgarwch a'r cyfleoedd sy'n newid bywyd a gynigir yng ngwersylloedd haf yr Urdd.

"Mae cymorth fel hyn yn sicrhau bod yr Urdd yno i bawb, a bod pob plentyn, beth bynnag fo'u hamgylchiadau, yn cael y cyfle i berthyn, i gynyddu eu hyder ac i greu atgofion a fydd yn aros gyda nhw drwy gydol eu hoes," ychwanegodd.

Mae gwersylloedd haf yr Urdd yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc fwynhau gwyliau annibynnol i ffwrdd o'u cartref, dan ofal staff profiadol a phroffesiynol yr Urdd.

Mae hyd y cyfnod gwyliau, gweithgareddau, grwpiau oedran a lleoliadau gwersylloedd yr Urdd yn amrywio. Ewch i wefan yr Urdd i ddysgu rhagor: www.urdd.cymru/summercamps

Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

- plentyn/person ifanc rhwng 8 ac 18 oed
- plentyn/person ifanc sy'n siarad Cymraeg yn rhugl neu sy'n dysgu Cymraeg
- plentyn/person ifanc y mae ei rieni/gwarcheidwad yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim NEU gredyd treth gwaith
- plentyn/person ifanc sy'n byw o dan amgylchiadau heriol rydych chi o'r farn y byddent yn elwa o fynd i wersyll haf.
- Nid oes rhaid bod yn aelod o'r Urdd i wneud cais.

Bydd y cyllid yn talu am gyfanswm pris y gwersyll, sy'n cynnwys cludiant, bwyd, gweithgareddau a gofal.

Dyddiad cau: 30 Mai 2026. Angen help i lenwi'r ffurflen gais? Cysylltwch â'r Urdd: cronfa@urdd.org

**Diwedd**